LANAqu37

Gweithio’n ddiogel mewn amgylchedd dyfrol

Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithio’n ddiogel mewn amgylchedd dyfrol. Mae’n cynnwys deall y gofynion iechyd a diogelwch a pholisïau’r safle gwaith, a gallu cynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill. Mae’n cynnwys pwysigrwydd cynnal asesiadau risg yn barhaus a chymryd y camau priodol i gynnal gwaith diogel ar y safle.

Mae’r safon hon ar gyfer pawb sydd yn gweithio mewn amgylchedd dyfrol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill yn barhaus
2. dewis a sicrhau effeithiolrwydd cyfarpar diogelu
3. defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn effeithiol bob amser, yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr, a gweithdrefnau gweithredu safonol y safle
4. addasu gwaith i ystyried tywydd ac amodau amgylcheddol cyffredin
5. defnyddio technegau codi a thrin â llaw diogel bob amser
6. defnyddio cyfarpar yn ddiogel yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr a gweithdrefnau gweithredu safonol y safle
7. defnyddio a gweithredu dyfeisiadau cyfathrebu i gynorthwyo diogelwch personol
8. dilyn a chyfathrebu gofynion cynlluniau brys y safle i eraill
9. adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau yn unol â***'r*** gofynion adrodd sefydliadol.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. cyfrifoldebau iechyd a diogelwch y cyflogwr â'r cyflogeion
2. **peryglon** cyffredin sydd yn gysylltiedig â gweithio mewn amgylchedd dyfrol
3. pryd dylid cynnal asesiadau **risg**, yn cynnwys rôl asesiad risg deinamig
4. sut mae peryglon a risg sydd yn berthnasol i'r safle gwaith yn cael eu cofnodi
5. egwyddorion atal ac adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau
6. deddfwriaeth iechyd a diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
7. pwysigrwydd cyfarpar diogelu wrth gynnal diogelwch safle
8. defnyddio a chymhwyso cyfarpar diogelu yn ddiogel
9. y risg sydd yn gysylltiedig â'r tywydd ac amodau amgylcheddol
10. technegau personol goroesi mewn dŵr oer
11. technegau codi ac ymdrin â llaw diogel a'u pwysigrwydd i osgoi anafiadau
12. pam y mae angen caniatâd ar gyfer defnyddio cyfarpar
13. pwysigrwydd cynnal a chadw cyfarpar
14. y dyfeisiadau cyfathrebu sydd yn ofynnol yn y safle gwaith
15. cynlluniau'r safle mewn argyfwng
16. y peryglon sydd yn gysylltiedig â gweithio ar eich pen eich hun a sut gellir eu lleihau
17. y peryglon sydd yn gysylltiedig ag ymdrin â nwyon potel

Geirfa

perygl – rhywbeth â'r potensial i achosi niwed

cyfarpar diogelu – gallant gynnwys:

- siacedi bywyd
- anadlwyr/masgiau llwch
- myffiau/plygiau clust
- hetiau caled
- menig
- gogls/amddiffynwyr wyneb
- esgidiau diogelwch
- dillad llachar

risg – tebygolrwydd o wireddu potensial y perygl

Gweithio’n ddiogel mewn amgylchedd dyfrol

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ebrill 2015
Indicative Review Date	Ebrill 2020
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANAqu37
Galwedigaethau perthnasol	Ffermio Pysgod
Cyfres/Set	Dyframaethu; Gofal a Lles Anifeiliaid
Geiriau Allweddol	iechyd a diogelwch; dyfrol